Ymddiriedolaeth Natur
Gogledd Cymru
North Wales
Wildlife Trust

# Ysgrifennu Ewyllys: canllaw cyflym

Bwriad yr wybodaeth ganlynol, sy'n cael ei darparu i chi gan Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru, yw eich helpu i wneud eich Ewyllys, ond nid yw wedi'i chynllunio i ddisodli cyngor cyfreithiol. Gobeithio y bydd yn ddefnyddiol i chi.



**Mae pob rhodd**
ym mhob Ewyllys,
boed yn fach neu'n fawr,
**yn gwneud gwahaniaeth**
i'ch bywyd gwyllt lleol

Os oes gennych chi gwestiwn, e-bostiwch graeme.cotterill@northwaleswildlifetrust.org.uk - byddem yn falch o helpu.

# 1. Pam ddylwn i wneud Ewyllys?

Mae Ewyllys yn sicrhau y bydd eich holl ddymuniadau'n cael eu parchu a'u cyflawni'n gywir, pan na fyddwch yn gallu goruchwylio eich ceisiadau'n bersonol. Mae'n golygu mai'r rhai rydych chi'n poeni amdanynt fwyaf fydd yn elwa fwyaf. Mae'n osgoi gadael i rywun nad ydych yn dymuno iddo wneud hynny elwa o'ch ystâd. Mae'n arbed anhapusrwydd ac anghydfod cyfreithiol.

Mae'n arbennig o bwysig gwneud Ewyllys os oes gennych chi blant, i benodi gwarcheidwad a sicrhau bod eich dymuniadau am eu lles yn cael eu bodloni.



Oeddech chi'n gwybod?
Daw

**22%**

o'n hincwm gwirfoddol ni o roddion mewn Ewyllysiau

Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru
North Wales Wildlife Trust

# 2. Sut bydd rhoddion mewn Ewyllysiau yn helpu

I ni yn Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru, mae rhoddion mewn Ewyllysiau'n hanfodol i'n helpu i gynllunio ar gyfer y dyfodol – gan sicrhau bod y dyfodol hwnnw'n gyfoethog o ran bywyd gwyllt a bod pobl yng Ngogledd Cymru yn deall pam mae hyn mor bwysig. Yn ffodus, cydnabyddir yn gyffredinol y byddai tua 35% o bobl yn y DU yn ystyried gadael rhodd i elusen. Fodd bynnag, er gwaethaf y bwriadau da hyn, mae ymchwil yn awgrymu mai dim ond tua 6% o bobl sydd wedi gadael cyfraniad i achosion da.

Rydym yn gwybod y gwahaniaeth y gallai pontio'r bwlch hwnnw rhwng 6% a 35% ei wneud i fywyd gwyllt yn lleol. Mae sawl gwaddol yn gwneud pethau gwych eisoes – yn ystod y blynyddoedd diwethaf, maent wedi ein helpu i reoli gwarchodfeydd natur, diogelu rhywogaethau unigol, achub safleoedd bywyd gwyllt a helpu plant ysgol i greu gerddi bywyd gwyllt hardd – ond mae'n amlwg bod cymaint mwy y gellid ei wneud.

Mae ein partneriaethau ysgrifennu Ewyllys am ddim amrywiol (edrychwch isod) wedi'u cynllunio i helpu pobl i gymryd y cam pwysig at ysgrifennu Ewyllys. Cofiwch nad oes rheidrwydd o gwbl arnoch i'w defnyddio, na gadael rhodd i ni os byddwch yn gwneud hynny. Os byddwch yn dewis gadael gwaddol, byddwn yn hynod ddiolchgar am eich haelioni wrth gwrs – a gobeithiwn y byddwch yn teimlo boddhad o wybod y bydd rhodd i ni yn gadael ôl eich troed ar ein tirwedd ni am byth.

**Mae gwaddol o**
**£21,000**
**yn ein helpu ni i warchod adar môr sy'n nythu yng Nghemlyn**

Rydym yn mawr obeithio na fydd unrhyw Ewyllys a wneir o'n plaid ni'n cael ei darllen am flynyddoedd lawer!

Os byddwch yn penderfynu gadael rhan o'ch ystâd i Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru ai peidio, plîs penderfynwch wneud Ewyllys!

Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru
North Wales Wildlife Trust

# 3. Sut gallaf wneud Ewyllys?

Yn y gymdeithas sydd ohoni heddiw, mae llawer o wahanol ffyrdd y gallwch wneud Ewyllys. Yn Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru, rydym wedi ymrwymo i nifer o bartneriaethau hyd yn oed, sy'n galluogi ein cefnogwyr i ysgrifennu eu Hewyllys am ddim – heb unrhyw rwymedigaethau o gwbl. Ym mhob achos, rydym yn talu cyfradd ddewisol am ysgrifennu nifer cyfyngedig o Ewyllysiau syml – os yw'r materion yn fwy cymhleth, bydd rhaid i chi dalu ffioedd ychwanegol.

## Defnyddio cyfreithiwr AM DDIM

Rydym yn rhan o'r Rhwydwaith Ewyllysiau Am Ddim Cenedlaethol, sy'n rhoi dewis o bractisau cyfreithwyr lleol i chi eu mynychu. Gall llawer gynnig apwyntiadau o bell hefyd. Ewch i www.northwaleswildlifetrust.org.uk/national-free-wills-network i ofyn am eich pecyn gwybodaeth am ddim.

## Defnyddiwch eich cyfreithiwr eich hyn

Er y bydd yr opsiynau uchod yn galluogi i chi arbed arian, gallwch, wrth gwrs, ddefnyddio eich cyfreithiwr eich hun, gofyn i berthynas neu ffrind awgrymu un neu fynd i www.solicitors.lawsociety.org.uk i ddefnyddio gwasanaeth 'Dod o hyd i gyfreithiwr' Cymdeithas y Gyfraith.

## Mynd ar-lein AM DDIM

Gan ddefnyddio makeawillonline.co.uk, gallwch chi ddrafftio Ewyllys mewn cyn lleied â 15 munud a chael cyfreithiwr i'w gwirio o fewn ychydig ddyddiau – am ddim. Y lle i gychwyn yw www.makeawillonline.co.uk/northwaleswildlifetrust

## Unrhyw gwestiynau?

E-bostiwch graeme.cotterill@northwaleswildlifetrust.org.uk - byddem yn falch o helpu.

# 4. Pa wybodaeth fydd arnaf ei hangen?

Po fwyaf o wybodaeth sydd gennych chi gyda chi pan fyddwch yn gwneud eich Ewyllys, y cyflymaf a'r hawsaf fydd y broses.

Dylech ddechrau drwy ddod o hyd i unrhyw Ewyllys flaenorol (os oes gennych chi un) ac unrhyw ddogfennau eraill a allai fod yn bwysig yn eich barn chi, a gwneud coeden deuluol o'ch perthnasau byw agosaf. Wedyn gwnewch rai rhestrau, gan gynnwys y canlynol:

- enw cywir a chyfeiriad llawn y personau neu'r elusennau yr hoffech gofio amdanynt, e.e. Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru, Llys Garth, Ffordd Garth, Bangor, Gwynedd, LL57 2RT, Rhif Elusen 230772
- unrhyw eitemau penodol rydych chi wedi'u haddo i ffrindiau neu berthnasau
- popeth sy'n ddyledus gennych chi, o forgais i daliadau HP (gydag enwau a chyfeiriadau cwmnïau)
- popeth sy'n ddyledus i chi
- eitemau sy'n eiddo ar y cyd

Os ydych chi'n gweld cyfreithiwr, gall eich helpu i lunio rhestr o'ch eiddo a'i werth. Bydd hefyd yn dweud wrthych chi am y costau bras sy'n gysylltiedig â chreu Ewyllys, costau angladd ac ati, ac yn esbonio sut i dynnu eich holl gostau o'ch asedau.

Beth bynnag sydd ar ôl wedi i chi wneud rhoddion penodol yw gweddill eich ystâd. Erbyn hyn, mae llawer o bobl yn dewis gadael y gweddill i'w hoff elusen.

Os oes gennych chi geisiadau personol (er enghraifft, ynghylch rhoi organau neu'r math o angladd rydych yn ei ffafrio), gwnewch yn siŵr bod eich perthnasau agos yn gwybod am hyn ymlaen llaw. Erbyn i'ch Ewyllys gael ei ddarllen, efallai y bydd yn rhy hwyr i gyflawni eich dymuniadau.

Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru
North Wales Wildlife Trust

# 5.Sut gallaf fod yn siŵr bod fy nymuniadau'n cael eu gweithredu?

Dyna pam rydych chi'n penodi Ysgutorion – dau fel rheol. Gall helpu os yw un yn gyfreithiwr sy'n delio â'ch Ewyllys.  Mae'n ddigon posib mai eich prif etifedd – gŵr, gwraig neu blentyn hynaf – fydd y llall. Os na fyddwch yn dewis unrhyw Ysgutorion, bydd y Llys yn penderfynu ar eich rhan – ac ni fyddant yn gyfarwydd â'ch dymuniadau.

Mae'n bwysig bod eich Ysgutorion yn gwybod ble mae eich Ewyllys yn cael ei chadw. Gallai hyn fod gartref, gyda'ch cyfreithiwr, gyda'r Gwasanaeth Profiant neu ar-lein – gwnewch yn siŵr eich bod yn gwybod ble mae.



Eich gwaddol chi yw eich

**PŴER BYWYD GWYLLT GWYCH**

Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru
North Wales Wildlife Trust

# 6. Gwneud synnwyr o'ch Ewyllys

Mae iaith gyfreithiol yn ddieithr i'r rhan fwyaf ohonom ni. Fodd bynnag, gall y diffiniadau hyn fod o help i chi:

**Buddiolwr**
Unrhyw un sy'n elwa mewn unrhyw ffordd o'ch Ewyllys.

**Cymynrodd**
Rhodd neu eitemau o arian.

**Codisil**
Dogfen gyfreithiol ar wahân sy'n golygu neu'n ychwanegu at yr Ewyllys wreiddiol.

**Devize**
Rhodd o dir.

**Ystâd**
Popeth sy'n eiddo i chi a all gynnwys eich cartref adeg eich marwolaeth.

**Ysgutor**
Person rydych yn ei benodi i sicrhau bod eich dymuniadau'n cael eu gweithredu.

**Diewyllys**
Rhywun sy'n marw heb adael Ewyllys.

**Probad**
Dogfen sy'n sefydlu'n swyddogol eich bod wedi gadael Ewyllys ddilys a phwy yw eich ysgutorion neu eich gweinyddwyr.

**Gweddill**
Popeth sydd ar ôl ar ôl talu trethi, bil yr angladd a biliau eraill a phob gwaddol wedi'u tynnu allan.

**Ewyllysiwr (gwryw) / Ewyllyswraig (benyw)**
Y person sy'n gwneud yr Ewyllys.

Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru
North Wales Wildlife Trust

# 7. Ein Siarter Gwaddol

1. Byddwn yn parchu eich preifatrwydd. Mae eich Ewyllys yn ddogfen bersonol sy'n mynegi eich dymuniadau chi a byddwn yn trin unrhyw wybodaeth rydych yn ei rhoi i ni fel gwybodaeth gyfrinachol.

2. Rydym yn deall y bydd eich teulu a'ch anwyliaid yn dod yn gyntaf bob amser.

3. Rydym yn deall mai eich penderfyniad chi yw hwn a bod rhaid i chi ei wneud yn eich amser eich hun.

4. Ni fyddwn byth yn dylanwadu'n amhriodol ar ymarferwyr cyfreithiol i annog rhoddion i'r Ymddiriedolaethau Natur, nac yn rhoi pwysau arnoch chi i adael rhodd yn eich Ewyllys.

5. Byddem wrth ein bodd yn clywed gennych chi os hoffech roi gwybod i ni eich bod wedi gadael rhodd i ni yn eich Ewyllys. Hefyd, rydym yn parchu eich penderfyniad os yw'n well gennych beidio â gwneud hynny.

6. Ni fyddwn byth yn gofyn i chi ddatgelu gwerth neu fath y rhodd rydych wedi dewis ei adael.

7. Rydym yn parchu eich hawl, ar unrhyw adeg yn y dyfodol, i newid eich meddwl am rodd yn eich Ewyllys i Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru.

8. Ni fydd amcanion a nodau'r Ymddiriedolaeth Natur yn newid yn y dyfodol rhagweladwy. Byddwn yn defnyddio eich rhodd yn ofalus ac yn gost-effeithiol fel ei bod yn cael yr effaith fwyaf posib ar gadwraeth ac addysg bywyd gwyllt yng Ngogledd Cymru.

9. Byddwn yn trin pa rodd bynnag rydych yn ei gadael i ni yn ofalus, yn sensitif a gyda pharch.

10. Ar ôl derbyn eich rhodd, efallai y byddwn yn rhoi gwybodaeth am beth mae wedi ein helpu ni i'w gyflawni ac i gydnabod eich enw yn ein llyfr coffau, sydd ar gael i'w weld yn ein pencadlys, er mwyn diolch i chi ac annog ewyllysiau yn y dyfodol. Dim ond gyda chaniatâd penodol eich teulu neu ysgutor eich Ewyllys fyddwn ni'n gwneud hyn.

# 8. Mae ein cefnogwyr drwy waddol yn dweud ...



## Lyn:

“Rydw i wedi bod yn oedi cyn ysgrifennu fy Ewyllys ers blynyddoedd gan ei fod bob amser yn ymddangos yn gymhleth. Mae gwasanaeth ysgrifennu YNGC yn gyflym ac yn hawdd iawn i’w ddefnyddio, gan wneud gadael gwaddol i helpu byd natur yn syml iawn.”

## Kathryn:

“Fe fyddwn ni’n dal i fod yn helpu bywyd gwyllt yr ardal yma rydyn ni’n ei charu gymaint.”

## Kirsty:

“Roedd ysgrifennu fy Ewyllys a fy nymuniadau gyda ‘Make a Will Online’ drwy YNGC am ddim ac yn hawdd, gan gynnwys archwiliadau ac adborth am ddim gan gyfreithiwr.”

## Diane:

“Rydw i’n gwybod sut mae’n rhaid i’r holl waith y mae’r Ymddiriedolaeth yn ei wneud gael ei gefnogi’n ariannol – a pha mor werthfawr y gall gwaddol fod o’i ychwanegu at fy aelodaeth bresennol.”

## Steve:

“Oherwydd bod byd natur wedi rhoi cymaint i mi, roeddwn i’n meddwl ei bod hi’n briodol gadael gwaddol i Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru – a gwybod, hyd yn oed ar ôl i mi fynd, y byddaf yn dal i adael fy marc ar y dirwedd drwy gefnogi’r gwaith gwych maen nhw’n ei wneud.”

Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru
North Wales Wildlife Trust

# Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru

**Ebost**
info@northwaleswildlifetrust.org.uk

**Ffôn**
01248 351541

**Cyfeiriad**
Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru
Llys Garth, Ffordd Garth, Bangor, Gwynedd, LL57 2RT

**Rhif Elusen**
230772

**www.facebook.com**/northwaleswildlifetrust

**www.twitter.com**/North_Wales_WT

**www.instagram.com**/northwaleswildlifetrust

**www.youtube.com**/northwaleswildlifetrust

## Gwarchod natur ar gyfer y dyfodol